

**Oedi gyda'r curicwlwm
Galwad i ysgolion cynradd
ddilyn ysgolion uwchradd.**

**Y diweddaraf am arolygu
Sylwadau'r Gweinidog
am Estyn.**

**Rheolau Covid newydd
Dim masgiau na grwpiau
cyswllt yn y dosbarth.**

addysgu yng Nghymru

**Rhifyn 68
Tymor yr Hydref 2021**



80% yn dioddef o iechyd meddwl gwael

MAE gan bedwar ym mhob pump addysgwyr yng Nghymru iechyd meddwl gwael – ac eto maen nhw'n dweud nad yw eu gweithle'n rhoi digon o sylw i hyn. Mae'n cael ei weld fel arwydd o wendid, ac weithiau fydd neb yn trafod y peth, hyd yn oed.

Dyma rai yn unig o ganfyddiadau'r arolwg iechyd meddwl a lles a gynhaliodd NEU Cymru ym mis Gorffennaf, arolwg a ddenodd dros 1,600 o ymatebion.

Cytunai wyth deg y cant bod eu gwaith yn effeithio ar eu hiechyd meddwl, a dywedodd bron i dri chwarter (72 y cant) bod eu gwaith wedi effeithio arny'n nhw ers dechrau pandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, dim ond 38 y cant oedd wedi cysylltu â'u meddyg teulu am eu hiechyd meddwl.

Yn ogystal â delio â'u lles eu hunain, mae bron i ddau draean o'r ymatebwyr (62 y cant) ar hyn o bryd yn helpu rhywun arall

sydd ag iechyd meddwl gwael. Dywedodd wyth deg un y cant o'r rheini a ymatebodd eu bod yn gweithio rhwng chwech ac 20 awr yn ychwanegol bob wythnos, a dywedodd 66 y cant eu bod yn meddwl am adael y proffesiwn, neu'n ystyried hynny o ddiatri.

'Addysgwyr ar ben eu tennyn'

Dywedodd David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru: "Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn codi braw ac yn dangos yn glir bod gweithwyr addysg ar ben eu tennyn. Rydyn ni'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r elusen Education Support i roi sylw i les staff, ond mae'r arolwg hwn yn dangos bod angen mynd i'r afael o ddiatri ag iechyd meddwl addysgwyr."

Dywedodd y byddai'r undeb yn ceisio gweithio gyda'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol i sicrhau bod iechyd meddwl yn cael y sylw "dirfawr" y mae'n ei haeddu.

Mae'r canlynol ymhlith canfyddiadau eraill yr arolwg:

- Mae 85 y cant o addysgwyr wedi helpu cydweithiwr sydd wedi profi gofid emosynol dros y 12 mis diwethaf.
- Mae 56 y cant wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd gorbryder, iselder neu straen yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Dim ond 39 y cant sydd mewn gweithle a chanddo bolisi iechyd meddwl a lles.
- Mae NEU Cymru yn galw am sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn ehangach i gynrychiolwyr gweithle a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch er mwyn iddyn nhw gael y sgiliau a'r wybodaeth i wella lles y staff.

Mae am weld enghreifftiau o arferion da yn cael eu cyhoeddi er mwyn hyrwyddo lles staff, ac am greu diwylliant lle bydd pobl yn agored am iechyd meddwl. Mae'n galw am gyllid i benodi hyrwyddwr lles/iechyd meddwl staff ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

- Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio fel rhan o ymgyrch iechyd meddwl a lles yr NEU.



Yr athrawes Kelly Turner (yn y blaen ar y chwith) yn gorymdeithio drwy'r pentre' gyda disgyblion Crymlyn, ar ôl i gyfyngiadau Covid olygu na allai'r rhieni fynd i'r ysgol i weld gwaith y plant

MAE ysgol yng Nghaerffili wedi troi'n ysgol sy'n ystyriol o blastig, ar ôl i'r disgyblion ymateb i'r her o leihau'r defnydd o blastig yn eu cymuned. Cymerodd plant rhwng oed meithrin a blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Crymlyn Lefel Uwch ran yn y prosiect **#PlasticHeroes**, a ddaeth i ben gyda gorymdaith drwy'r pentre', gan chwifio posteri a chanu caneuon protest. Ac mae'u gwaith wedi cael ei gydnabod drwy gael gwobr 'Plastic Clever School' gan yr ymgyrch Kids Against Plastic. "Roedd y plant yn pryderu am y plastig yn y môr, felly dechreuon ni drwy drafod effaith plastig ar fywyd gwyllt," meddai'r athrawes, Kelly Turner. Aeth y prosiect yn ei flaen i gynnwys gwaith celf, ymchwil, dyfeisio gemau ac arolwg o focsys bwyd i weld faint o blastig oedd ynddyn nhw. Penderfynwyd cynnal gorymdaith brotest i bwysleisio'r neges. "Roedd y plant wrth eu boddau. Daeth y rhieni i guro sosbenni o'u drysau wrth i'r plant ganu'u caneuon, ac roedd perchnogion y siopau'n cymeradwyo," meddai Kelly. Nawr mae'r bobl ifanc yn helpu'u teuluoedd i ddefnyddio llai o blastig, ac mae'r athrawon wedi cael gorchymyn pendant i lamineiddio llai. Mae Kids Against Plastic hefyd am ddefnyddio'u prosiect fel astudiaeth achos o arfer da. kidsagainstplastic.co.uk

Yr Undeb yn galw am oedi gyda'r cwricwlwm cynradd



MAE NEU Cymru yn galw'n daer ar Lywodraeth Cymru i oedi cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion cynradd tan fis Medi 2023.

Ar 6 Gorffennaf, cafwyd cyhoeddiad gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, yn dweud y byddai oedi cyn y byddai'n rhaid i ysgolion uwchradd gyflwyno'r cwricwlwm newydd, ond dywedodd y dylai ysgolion cynradd fwrw ymlaen a phontio i'r cwricwlwm newydd yn ôl y bwriad.

Yn ôl David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru, mae'r undeb wedi galw ers tro am oedi cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. "Byddai'n well gennyn ni fod wedi gweld oedi cyn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith mewn ysgolion cynradd hefyd," meddai.

"Mae ein haelodau wastad wedi cefnogi'r cwricwlwm newydd mewn egwyddor, ond mae'r pandemig wedi tarfu cymaint ar bethau yn ein hyssgolion, mae'n hollol deg eu bod nhw'n cael mwy o amser a chymorth i sicrhau eu bod nhw'n barod."

Jeremy Miles

Croesawodd David y cam gan y gweinidog i gael gwared ar y gofyniad i gynnal asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol mewn ysgolion cynradd ym mlwyddyn academaidd 2021/22, pan fydd disgyblion yn pontio i'r cwricwlwm newydd fis Medi nesaf.

Cyhoeddodd y gweinidog £7.24 miliwn yn ychwanegol i gefnogi ysgolion gyda'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

Ond dywedodd hefyd y byddai unrhyw ysgolion uwchradd a oedd mewn sefyllfa i fwrw ymlaen a chyflwyno'r cwricwlwm newydd fis Medi eleni yn cael eu hannog i wneud hynny. Yn ôl David, nid yw'r awgrym hwn yn helpu neb, "ac mae'n rhoi pwysau diangen ar ysgolion."

Ychwanegodd: "Nid yw'r pandemig ar ben. Cymaint ag y bydden ni oll yn hoffi canolbwyntio ar addysg ein pobl ifanc, rydyn ni'n gwybod y bydd mwy o darfu ar bethau dros y flwyddyn nesaf – gyda phobl i ffwrdd yn ynysu er mwyn gwarchod eu cyfoedion a'r gymuned ehangach. Gobeithio felly y bydd y pwyslais ar les pawb yn y system addysg yn parhau'n flaenoriaeth o bwys."

Dyddiadau dysgu i'ch dyddiadur

HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Oherwydd yr argyfwng iechyd sy'n dal i fynd rhagddo, bydd cyrsiau hyfforddiant diwrnod a thridiau'r undeb ar gyfer cynrychiolwyr gweithle presennol yn dal i gael eu cynnal yn rhithwir. Byddan nhw'n cael eu cynnal dros gyfnod o chwe wythnos, gyda sesiynau dwy awr wythnosol rhwng 4-6pm.

Cyrsiau sylfaen

■ Dyddiau Mawrth, rhwng 12 Hydref a 23 Tachwedd (heb gynnwys hanner tymor)

■ Dyddiau Mercher, rhwng 3 Tachwedd ac 8 Rhagfyr

Os oes diddordeb gennych chi mewn mynd ar gwrs, anfonwch e-bost

at cymru.wales@neu.org.uk – a chofiwch, mae hawl gyfreithiol gan gynrychiolwyr i gael yr hyfforddiant hwn. Bydd yr NEU yn cefnogi unrhyw gynrychiolydd sy'n wynebu anawsterau wrth geisio cael amser i ffwrdd o'r gwaith i fod yn bresennol. Pan fydd pethau wedi dychwelyd i'r drefn arferol, byddwn yn trefnu cyrsiau tridiau llawn, ynghyd â chwrs mewn modiwlau, lle bydd y tridiau'n cael eu cwblhau ar wahân dros gyfnod o amser.

Rhagor o gyrsiau drwy WULF

Mae cyrsiau hefyd ar gael drwy brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac mae rhestr wedi'i diweddarau o'r pynciau i'w gweld yn bit.ly/3hWYJcj ynghyd â gwybodaeth am sut i gofrestru.

Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook yn [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining), dilynwch ni ar Twitter drwy [@neucymrutrain](https://twitter.com/neucymrutrain) ac ewch i neu.org.uk/learning-and-events

Gohirio arolygiadau Estyn eto

MAE NEU Cymru wedi croesawu'r newyddion y bydd rhaglen arolygu graidd Estyn yn cael ei gohirio am dymor arall o fis Medi.

Dywedodd y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles, y byddai'r cam hwn yn galluogi'r corff arolygu i ganolbwyntio ar yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion hynny sydd angen y cymorth mwyaf cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Dywedodd David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru, y byddai'r aelodau wedi'i "calonogi" bod y gweinidog wedi deall yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu addysg. "Drwy gydol y pandemig, mae Estyn wedi cydnabod y gwaith mae pawb yn y byd addysg yn ei wneud, ac fe roddodd stop ar arolygiadau'n syth fis Mawrth y llynedd. Drwy gymryd y cam hwn, sydd i'w groesawu, mae'r Gweinidog Addysg wedi cydnabod ei fod yn deall yr heriau ac yn sylweddoli na fyddai arolygiad gan Estyn yn helpu neb ar yr adeg hon," meddai David.

Dywedodd y gweinidog hefyd y byddai Estyn yn treialu trefniadau arolygu newydd yn ystod tymor y gwanwyn 2022.

Dewch i gyfarfod Swyddog y Flwyddyn NEU Cymru



MAE Swyddog y Flwyddyn Cymru 2020/21 yn dweud mai ei chydweithwyr ymroddedig yn yr ardal sy'n gyfrifol am ei llwyddiant.

Dyweddodd Pamela Ireland, ysgrifennydd ardal

Caerffili (yn y llun ar y chwith), ei bod hi'n derbyn y wobwr "ar ran Tîm Caerffili".

"Mae gennyn ni grŵp ymroddedig iawn o bobl sy'n dod i'r holl gyfarfodydd ac yn ein cefnogi ym mhopeth y byddwn ni'n ei wneud," meddai.

A hithau'n athrawes wyddoniaeth am 25 mlynedd, cymerodd Pamela'r awenau fel ysgrifennydd ardal ar ôl ymddeol dair blynedd yn ôl. Mae hi'n sicrhau ei bod hi ar gael i'r aelodau bob amser, yn enwedig wrth i'r pandemig arwain at broblemau fel gorbryder a materion yn ymwneud â swigod a phrofi. Bu cynnydd o dros 70 yn nifer aelodau'r ardal yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r ardal hefyd yn cynnal ei chynllun gwobrwyo'i hun, sef Gwobr Ymdrech yr NEU, ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn mynychu'r ysgol er gwaethaf anawsterau corfforol neu emosiynol, neu broblemau eraill.



Y cynnig buddugol gan Lili Slatter, o Ysgol Maesydderwen yn Ystradgynlais

RHODDODD miloedd o ddisgyblion o Gymru gynnig ar Gystadleuaeth Greadigol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2021 – cystadleuaeth a nodwyd yn arbennig gan NEU Cymru. Roedd y categorïau'n amrywio o ddylunio dillad ac ysgrifennu creadigol i'r cyfryngau digidol a dylunio posteri. Teitl y categori arbennig eleni oedd Hiliaeth yn y Gêm Brydferth, a hynny'n annog disgyblion i edrych ar hiliaeth yn y byd pêl-droed. Y prif enillydd oedd Lili Slatter o Ysgol Maesydderwen yn Ystradgynlais, Powys, am ei phoster. Cafodd iPad yn wobwr, yn rhodd gan yr NEU fel rhan o ymrwymiad yr undeb i wneud gwaith i drechu hiliaeth mewn ysgolion. Cyhoeddwyd yr enillwyr ac enwau'r rheini a ddaeth yn agos at y brig ar-lein gan lu o wynebau enwog o'r byd chwaraeon a'r byd teledu, gan gynnwys Sean Morrison, capten clwb pêl-droed Caerdydd, Beth Fisher, gohebydd chwaraeon ITV, a'r cyflwynwyr teledu, Jason Mohammad, Lisa Rogers ac Alex Winters.

Ewch i bit.ly/3wMjT13

■ Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn dathlu 25 mlynedd o ymgyrchu – ewch i [dudalen 19](https://dudalen19)

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun Covid

MAE Llywodraeth Cymru wedi gwneud tri phrif newid i'r canllawiau ar gyfer ailagor sefydliadau addysg o fis Medi eleni.

Ar ddechrau tymor yr hydref, bydd hefyd yn cyflwyno fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau i reoli'r haint, a hynny'n galluogi ysgolion i addasu'r canllawiau i adlewyrchu lefel leol y risg. Cafodd y fframwaith ei lunio dros yr haf ar y cyd ag ysgolion, awdurdodau lleol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

Nod y canllawiau gweithredu hyn, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yw cyflwyno rhywfaint o normalrwydd unwaith eto mewn addysg. Dyma'r tri phrif newid:

1. Gorchuddion wyneb

Ni fydd argymhelliad cyffredinol i staff na

“Nod y canllawiau yw cyflwyno rhywfaint o normalrwydd unwaith eto mewn addysg.”

dysgwyr wisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth. Gall ysgolion a lleoliadau annog eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, fel ystafelloedd cyffredin. Dylid sicrhau cyn lleied ag y bo modd o ymwneud agos rhwng dysgwyr, a dylid parhau i gadw

pellter cymdeithasol lle bydd hynny'n bosib.

2. Grwpiau cyswllt

Ni fydd angen grwpiau cyswllt bellach ar gyfer disgyblion ysgol na dysgwyr amser llawn mewn colegau. Yn lle'r ddibyniaeth ar grwpiau cyswllt, bydd mwy o bwyslais ar olrhain cysylltiadau, fel sy'n digwydd yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Bydd y system Profi, Olrhain, Diogelu yn cael ei defnyddio i ganfod cysylltiadau agos dysgwyr sydd wedi cael prawf positif.

3. Amseroedd sesiynau ysgolion

Bydd amseroedd normal ar gyfer sesiynau ysgolion yn aildechrau.

■ Mae'r canllawiau llawn i'w gweld fan hyn bit.ly/36KXQgF

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf yn Ewrop, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau.

Mae ein ffm profesiynol yma i ddefnyddio' u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion ardal a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle
- ysgrifennydd eich cangen
- AdviceLine
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

TySinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru:

Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru:

Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Máiréad Canavan, Elizabeth McLean,

Hannah O'Neill

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Llywydd: Daniel Kebede

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol:

Mary Bousted a Kevin Courtney

Cyfieithiad gan Rhys Iorwerth Cyf
rhysiorwerth@hotmail.com



Y cynnydd o 1.75% mewn cyflogau yn 'siomedig'

MAE NEU Cymru yn siomedig â'r cynnydd arfaethedig o 1.75 y cant y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig yn 2021. Ym mis Mehefin, dywedodd Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg, ei fod yn derbyn 12 prif argymhelliad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

Ond dywedodd David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru, fod y cynnydd yn sylweddol is na'r hyn roedd yr undeb wedi dymuno'i weld.

"Gofynnodd NEU Cymru am ddyfarniad cyflog uwch i ddechrau unioni'r cydbwysedd yn dilyn toriadau mewn termau real ers 2010, ac i wobrwyo gweithlu sydd wedi bod ar y rheng flaen yn ystod y pandemig," meddai.

Mae'r undeb wedi cyflwyno'i safbwynt i'r Llywodraeth, ac roedd yn aros am ymateb wrth i Addysgu yng Nghymru fynd i'r wasg. Mae disgwyl i'r codiad cyflog ddod i rym ym mis Medi.

■ Mae adroddiad y Bwrdd Adolygu i'w weld fan hyn ([Saesneg yn unig](#)) bit.ly/3zk6Epl

■ Darllenwch am gynigion Llywodraeth Cymru fan hyn bit.ly/3BkQTKr

Cau ysgolion bach

MAE rhagor o ysgolion gwledig yn cau yng Nghymru er gwaethaf gwrthwynebiad croch gan gymunedau lleol. Mae cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Phowys i gyd wedi pleidleisio i gau rhai ysgolion bach yn eu hardaloedd, ac mae disgwyl i Sir Gâr benderfynu ar ddyfodol dwy ysgol yn yr hydref.

Mae disgwyl i Ysgol Abersoch yng Ngwynedd gau ar 31 Rhagfyr a bydd Ysgol Talwrn ar Ynys Môn yn cau ym mlwyddyn ysgol 2022/23.

Aelodau gweithredol yr NEU

MAE Máiréad Canavan, ysgrifennydd cangen Bro Morgannwg, a Hannah O'Neill, ysgrifennydd cangen Blaenau Gwent, wedi'u hethol fel aelodau Cymru ar weithrediaeth genedlaethol yr undeb.

Yn ymuno â nhw mae Elizabeth McLean, ysgrifennydd cangen sir



(O'r chwith) Aelodau gweithredol Cymru, Máiréad, Hannah ac Elizabeth

Ddinbych. Etholwyd Máiréad i'r weithrediaeth am y tro cyntaf yn 2019 a phenodwyd

Hannah ym mis Ionawr eleni. Bydd y tair yn aros yn eu swyddi tan fis Awst 2023.

Ym Mhowys dros yr haf, yn dilyn proses ymgynghori, penderfynwyd cadw dwy ysgol ar agor, sef Ysgol Pennant ac Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Ond mae'r cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen i gau Ysgol Castell Caereinion, Yr Eglwys yng Nghymru, fis Awst nesaf. Gallai dwy ysgol arall, o leiaf, hefyd gau yn y sir.

Yn ei gynhadledd flynyddol ym mis Mawrth, cytunodd NEU Cymru i ymgyrchu'n galed i arbed ysgolion gwledig yn sgil pryderon am effaith cau ysgolion ar iechyd meddwl plant a swyddi addysgwyr.

Dysgwch Gymraeg gyda Phrifysgol Cymru

MAE athrawes sydd wedi bod yn dysgu Gymraeg ers blwyddyn yn dweud bod y profiad wedi newid ei bywyd.

Cafodd Angharad Jones gyfnod sabothol o Ysgol Gynradd Pontllan-fraith yng Nghaerffili er mwyn dysgu'r iaith ar gynllun Prifysgol Cymru, Cymraeg mewn Blwyddyn. Mae hi wedi ymddangos mewn amryw o fideos ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn blogiau fideo wrth iddi gyrraedd rownd gyn-derynol gwobr Dysgwr y Flwyddyn. Disgrifiwyd hi gan Tudur Owen, y comedïwr, fel rhywun sy'n "ysbrydoli" a gwahoddwyd Angharad i ymddangos ar S4C.

"Rwy' ar ddechrau fy siwrnai'n siarad Gymraeg, ond fe alla' i ddweud bod yr iaith wedi newid fy mywyd, yn bendant," meddai Angharad, sydd hefyd wedi bod yn helpu pobl eraill yn ei hysgol i ddisgu'r iaith.

Mae'r cwrs yn rhan o gynllun sabothol y Gymraeg sy'n cael ei ddarparu gan y brifysgol a'i nodd gan y Llywodraeth - ewch i bit.ly/3riHMfz